



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Diwygiadau i Reoliadau Partneriaeth o dan Ran 9 o'r Ddeddf

Dyddiad cyhoeddi: 31 Awst 2018
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 26 Hydref 2018

Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio eich barn ar ddiwygiadau i Reoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015 a Rheoliadau Gofal a Chymorth (Trefniadau Partneriaeth ar gyfer Asesiadau Poblogaeth) (Cymru) 2015. Y diben yw:

- Newid ardaloedd byrddau partneriaeth rhanbarthol er mwyn ystyried y newid i ffiniau byrddau iechyd Abertawe Bro Morgannwg a Chwm Taf
- Egluro'r gofynion i fyrddau partneriaeth rhanbarthol sefydlu cronfeydd cyfun mewn perthynas â chartrefi gofal
- Ei gwneud yn ofynnol cael rhywun sy'n cynrychioli'r sector tai ar fyrddau partneriaeth rhanbarthol
- Ei gwneud yn ofynnol i fyrddau partneriaeth rhanbarthol lunio strategaethau comisiynu rhanbarthol mewn perthynas â chartrefi gofal
- Egluro erbyn pa ddyddiad y mae'n rhaid i fyrddau partneriaeth rhanbarthol lunio adroddiadau blynyddol

Sut i ymateb

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy gwblhau a dychwelyd y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yng nghefn y ddogfen hon erbyn hanner nos ar y dyddiad cau. Dylid anfon yr ymateb i:

Y Gangen Partneriaeth ac Integreiddio
Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac
Integreiddio
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Fel arall, mae'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar gael ar ein gwefan
(<https://beta.llyw.cymru/ymgyngoriadau?lang=cy>) a gellir ei dychwelyd atom, erbyn hanner nos ar y dyddiad cau, drwy e-bost at:
SSWBIMPLEMENTATION@llyw.cymru.

**Rhagor o
wybodaeth a
dogfennau
cysylltiedig**

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill.

Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth:

Cyfeiriad: Y Gangen Partneriaeth ac Integreiddio
Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau
Cymdeithasol ac Integreiddio
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

e-bost: SSWBIMPLEMENTATION@llyw.cymru

Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth i chi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Dim ond o dan gontract yr ymgwymerir â gwaith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, nodwch hynny wrth i chi ddychwelyd eich ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddiill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

e-bost:

Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 or
0303 123 1113

Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Cyflwyniad

- 1.1. Mae Rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ('y Ddeddf') yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru sicrhau bod strwythurau ac adnoddau priodol ar waith i'w gwneud yn bosibl darparu gwasanaethau gofal a chymorth integredig. Mae Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015 ("Rheoliadau 2015") yn darparu ar gyfer sefydlu saith bwrdd partneriaeth rhanbarthol yn seiliedig ar ôl troed y byrddau iechyd. Ymhlith eu hamcanion mae sicrhau bod partneriaid yn gwneud y canlynol:
 - ymateb i'r asesiad poblogaeth sy'n ofynnol o dan y Ddeddf;
 - gweithredu cynlluniau ardal a lunnir mewn ymateb i'r asesiad hwnnw;
 - hyrwyddo'r broses o sefydlu cronfeydd cyfun lle y bo'n briodol.
- 1.2. Mae'r Rheoliadau Partneriaeth yn nodi bod yn rhaid i aelodaeth pob bwrdd partneriaeth rhanbarthol gynnwys y canlynol:
 - O leiaf un aelod etholedig o awdurdod lleol;
 - O leiaf un aelod o'r bwrdd iechyd lleol;
 - Cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol o bob awdurdod lleol;
 - Rhywun sy'n cynrychioli'r bwrdd iechyd lleol;
 - O leiaf un person i gynrychioli pobl ag anghenion gofal a chymorth;
 - O leiaf un person i gynrychioli gofalwyr;
 - O leiaf un person sy'n cynrychioli buddiannau darparwyr gofal;
 - Dau berson sy'n cynrychioli buddiannau'r trydydd sector (un yn cynrychioli sefydliadau lleol yn y trydydd sector ac un yn cynrychioli sefydliadau cenedlaethol yn y trydydd sector).
- 1.3. Gall byrddau partneriaeth rhanbarthol gyfethol pobl eraill i fod yn aelodau fel y bo'n briodol.
- 1.4. Mae Rheoliadau 2015 yn cynnwys gofynion i bartneriaid sefydlu a chynnal cronfeydd cyfun. Yn benodol, dywed rheoliad 19(1)(a), "Mae'n ofynnol i gyrff partneriaeth pob un o'r trefniadau partneriaeth sefydlu a chynnal cronfeydd cyfun mewn perthynas ag arfer eu swyddogaethau llety cartref gofal." Dechreuodd y gofyniad hwn ym mis Ebrill 2018.
- 1.5. Mae Rheoliadau Gofal a Chymorth (Trefniadau Partneriaeth ar gyfer Asesiadau Poblogaeth) (Cymru) 2015 yn nodi trefniadau partneriaeth ar gyfer asesiadau poblogaeth o anghenion gofal a chymorth, sy'n ofynnol o dan Ran 2 o'r Ddeddf.
- 1.6. Ar 14 Mehefin 2018, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus tri mis o hyd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y bydd gwasanaethau gofal iechyd yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn trosglwyddo o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, gan symud y ffin rhwng y byrddau iechyd yn unol â hynny. Daw'r hyn i rym ar 1 Ebrill 2019.
- 1.7. Mae angen diwygio Rheoliadau 2015 a Rheoliadau Gofal a Chymorth (Trefniadau Partneriaeth ar gyfer Asesiadau Poblogaeth) (Cymru) 2015 i ystyried y newid yn ffiniau'r byrddau iechyd. Mae hyn yn gyfle i gynnal arolwg o'r rheoliadau hyn ar yr un pryd, gan gynnwys, yn benodol, mewn perthynas â'r

gofyniad i sefydlu cronfeydd cyfun a'i gwneud yn ofynnol i rywun sy'n cynrychioli'r sector tai fod yn aelod o bob bwrdd partneriaeth rhanbarthol.

- 1.8. Hefyd, bydd angen diwygio Canllawiau Statudol Rhan 9, a thrafodir hyn yn fanylach yn adran 4.

Yr ymgynghoriad hwn

- 2.1. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn dechrau ar 31 Awst 2018 ac yn dod i ben am hanner nos ar 26 Hydref 2018.
- 2.2. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio eich barn ar ddiwygiadau i'r Rheoliadau Partneriaeth a Rheoliadau Gofal a Chymorth (Trefniadau Partneriaeth ar gyfer Aseidiadau Poblogaeth) (Cymru) 2015. Y diben yw:
 - Newid y partneriaid a gaiff eu cynnwys yn ardaloedd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf a Bae'r Gorllewin i ystyried y newid i ffiniau byrddau iechyd Abertawe Bro Morgannwg a Chwm Taf;
 - Egluro'r gofynion i fyrddau partneriaeth rhanbarthol sefydlu cronfeydd cyfun mewn perthynas â swyddogaethau llety cartref gofal;
 - Ei gwneud yn ofynnol cael rhywun sy'n cynrychioli'r sector tai ar fyrddau partneriaeth rhanbarthol;
 - Ei gwneud yn ofynnol i fyrddau partneriaeth rhanbarthol lunio strategaethau comisiynu rhanbarthol mewn perthynas â chartrefi gofal i bobl hŷn;
 - Egluro erbyn pryd y mae'n rhaid i fyrddau partneriaeth rhanbarthol lunio adroddiadau blynyddol.
- 2.3. Rydym hefyd yn ceisio eich barn ar y dull arfaethedig o ddiwygio Canllawiau Statudol Rhan 9 i ystyried y newidiadau i'r rheoliadau a nodir uchod. Rydym yn bwriadu cyhoeddi canllawiau diwygiedig erbyn mis Ebrill 2019, gan ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a thrafodaethau pellach â rhanddeiliaid.
- 2.4. Mae Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) (Diwygio) 2019 drafft ("Y Rheoliadau Diwygio") wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad hwn. Bydd eich ymatebion i'r ymgynghoriad yn helpu i lywio ein gwaith o ystyried y rheoliadau terfynol. Ein bwriad yw dadansoddi'r ymatebion yn ystod yr hydref ac ystyried newidiadau cyn cyflwyno'r rheoliadau gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Daw'r rheoliadau i rym ar 1 Ebrill 2019.
- 2.5. Cynhelir yr ymgynghoriad hwn dros gyfnod o wyth wythnos rhwng 31 Awst a 26 Hydref 2018. Cynhaliwyd ymgynghoriad ynghylch y newidiadau mewn perthynas â ffiniau'r byrddau iechyd rhwng mis Rhagfyr 2017 a mis Mawrth 2018. Mae'r newidiadau arfaethedig mewn perthynas â chronfeydd cyfun a chynrychiolaeth o'r sector tai wedi cael eu trafod ag ystod eang o randdeiliaid.

Y diwygiadau arfaethedig

Y newid i'r ffin rhwng byrddau iechyd Cwm Taf ac Abertawe Bro Morgannwg

- 3.1. Yn dilyn ymgynghoriad, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ar 14 Mehefin 2018 y bydd gwasanaethau gofal iechyd yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn trosglwyddo o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, gan symud y ffin rhwng y byrddau iechyd yn unol â hynny. Bydd y newid hwn yn gosod trefniadau partneriaeth economaidd, addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn gadarn o fewn Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Daw hyn i rym ar 1 Ebrill 2019.
- 3.2. Mae'r Rheoliadau Partneriaeth yn nodi'r cyrff sydd wedi'u cynnwys o fewn pob bwrdd partneriaeth rhanbarthol. Bydd angen diwygio'r rheoliadau hyn mewn perthynas â'r cyrff sydd wedi'u cynnwys o fewn Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol Bae'r Gorllewin a Chwm Taf. Bydd angen i hyn ddod i rym ar 1 Ebrill 2019. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r newidiadau angenrheidiol:

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol	Trefniadau partneriaeth presennol	Trefniadau partneriaeth ar ôl diwygio
Cwm Taf	<ul style="list-style-type: none"> • Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf • Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf • Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful 	<ul style="list-style-type: none"> • Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf • Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf • Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful • Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Bae'r Gorllewin	<ul style="list-style-type: none"> • Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg • Cyngor Dinas a Sir Abertawe • Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr • Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot 	<ul style="list-style-type: none"> • Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg • Cyngor Dinas a Sir Abertawe • Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

- 3.3. Bydd rheoliadau diwygio ar wahân hefyd yn newid y trefniadau partneriaeth yn yr un modd ar gyfer Cwm Taf a Bae'r Gorllewin yn Rheoliadau Gofal a Chymorth (Trefniadau Partneriaeth ar gyfer Aseidiadau Poblogaeth) (Cymru) 2015.

- 3.4. Bydd offerynnau statudol ar wahân yn mynd i'r afael â'r newid gwirioneddol i ffiniau'r byrddau iechyd, trosglwyddo asedau a rhwymedigaethau a diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth arall. Bydd hyn yn cynnwys newidiadau i fyrddau diogelu, trefniadau mabwysiadu rhanbarthol, Cynghorau Iechyd Cymuned a phartneriaethau iechyd meddwl. Caiff trefniadau mabwysiadu rhanbarthol eu diwygio ar wahân mewn Cyfarwyddiadau.
- 3.5. Gan fod y mater hwn wedi cael ei ystyried yn yr ymgynghoriad ehangach ynghylch newid ffin bwrdd iechyd Pen-y-bont ar Ogwr a gynhaliwyd rhwng 13 Rhagfyr 2017 a 7 Mawrth 2018, nid yw Llywodraeth Cymru yn ceisio unrhyw farn ar yr elfen hon o'r Rheoliadau Diwygio.

Cronfeydd cyfun rhanbarthol

- 3.6. Mae cronfeydd cyfun yn elfen allweddol o'r agenda integreiddio a'r ymgyrch i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cyd-gomisiynu. Yn ychwanegol at y gofynion yn y Rheoliadau Partneriaeth, mae canllawiau statudol ategol yn nodi'r disgwyliad bod partneriaid hefyd yn rhoi proses gomisiynu integredig ar waith sy'n canolbwyntio ar wella ansawdd yn ogystal â sicrhau gwell gwerth am arian. Mae hyn yn tywys partneriaid i wneud y canlynol:
- Cytuno ar ddatganiad integredig priodol o sefyllfa'r farchnad a strategaeth gomisiynu;
 - Cytuno ar fanyleb a chontract cyffredin;
 - Datblygu dull integredig o gytuno ar ffioedd gyda darparwyr;
 - Datblygu dull integredig o sicrhau ansawdd;
 - Defnyddio adnoddau mewn ffordd dryloyw.
- 3.7. Mae Gweinidogion Cymru wedi nodi eu disgwyliadau y bydd y cronfeydd cyfun hyn yn cael eu sefydlu ar y lefel ranbarthol rhwng y bwrdd iechyd a phob awdurdod lleol yn ardal y bartneriaeth.
- 3.8. Mae'r Rheoliadau Diwygio arfaethedig yn rhoi eglurhad ychwanegol bod yn rhaid i bob awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd mewn partneriaeth gyfrannu at sefydlu un gronfa gyfun mewn perthynas â swyddogaethau llety cartref gofal i bobl hŷn.
- 3.9. Cynhaliodd y Sefydliad Gofal Cyhoeddus adolygiad llenyddol o fanteision cronfeydd cyfun, y mae Llywodraeth Cymru wedi'i rannu â chydweithwyr rhanbarthol. Roedd yr astudiaeth yn tynnu sylw at fanteision yn cynnwys gwneud y farchnad yn fwy cynaliadwy; gwneud penderfyniadau teg; comisiynu rhanbarthol; a gweithio'n gryfach mewn partneriaeth. Mae copi ar gael yma: <https://ipc.brookes.ac.uk/publications/Welsh%20Government%20Pooled%20Funds%20IPC%20Evidence%20Review%201%20December%202017.pdf>

Cwmpas cronfeydd cyfun

- 3.10. Ar hyn o bryd, mae Rheoliad 19(1)(a) o Reoliadau 2015 yn ei gwneud yn ofynnol sefydlu cronfa gyfun mewn perthynas â phob swyddogaeth llety cartref gofal i oedolion.
- 3.11. Yn dilyn trafodaethau â chydweithwyr rhanbarthol, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod mai'r flaenoriaeth gychwynnol a'r disgwyliad mwy realistig yw mai mewn perthynas â chartrefi gofal i bobl hŷn yn unig y dylai cronfeydd cyfun fod yn ofynnol. Felly, mae'r Rheoliadau Diwygio arfaethedig yn cadarnhau ei bod yn ofynnol i bartneriaid sefydlu a chynnal cronfa gyfun mewn perthynas â llety cartref gofal i bobl hŷn. Mae hyn yn dal i sicrhau y caiff cronfa gyfun ei sefydlu i dalu'r rhan fwyaf o gostau gofal.
- 3.12. Mae'r rheoliadau'n diffinio person hŷn fel person 60 oed a throsodd. Rydym yn croesawu barn ar briodolrwydd y diffiniad hwn at ddibenion diffinio cwrpas y gofyniad i sefydlu cronfa gyfun.
- 3.13. Ni fydd y rheoliadau'n atal byrddau partneriaeth rhanbarthol rhag datblygu cronfeydd cyfun yn ehangach yn dibynnu ar eu blaenoriaethau. Bydd yn ofynnol i bartneriaid ystyried sefydlu cronfa gyfun pryd bynnag y byddant yn gwneud rhywbeth ar y cyd mewn ymateb i'r asesiad poblogaeth sy'n ofynnol o dan adran 14 o'r Ddeddf o hyd. Fodd bynnag, mae rhai rhanbarthau wedi awgrymu y byddai sefydlu cronfeydd cyfun mewn perthynas ag oedolion ag anawsterau dysgu (er enghraifft) yn gymhleth iawn ac y byddai angen llawer o waith pellach i wneud hynny.

Strategaethau comisiynu rhanbarthol

- 3.14. Mae'r Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cynnwys argymhellid i gyflwyno gofyniad cenedlaethol am 'gyd-strategaethau comisiynu rhanbarthol ar draws iechyd, gofal a llesiant ar sail poblogaeth', gyda 'gofynion clir ar gyfer cyfuno adnoddau'.
- 3.15. Mae disgwyl i fyrddau rhanbarthol lunio strategaethau comisiynu eisoes, fel y nodir yng Nghanllawiau Statudol Rhan 9, fel rhan o becyn o fesurau i ddarparu ar gyfer trefniadau comisiynu integredig. Rydym yn cynnig cryfhau'r gofyniad hwn drwy ei sefydlu mewn rheoliadau.
- 3.16. Mae'r Rheoliadau Diwygio yn nodi bod yn rhaid i'r gronfa gyfun a sefydlir mewn perthynas â chostau cartref gofal ar gyfer pobl hŷn fod yn gymesur â'r galw a ragwelir ar gyfer lleoedd mewn cartrefi gofal, fel y'i nodwyd yn y strategaeth gomisiynu leol. Bwriad hyn yw gosod y gronfa gyfun yn glir yng nghyd-destun trefniadau comisiynu integredig.
- 3.17. Bydd y dull gweithredu hwn yn pwysleisio'r disgwyliad ymhellach bod yn rhaid i gronfeydd cyfun fod o fewn cyd-destun trefniadau comisiynu integredig. Credwn y dylid cyfyngu'r gofyniad hwn i leoedd mewn cartref gofal i bobl hŷn ar hyn o bryd, er mwyn cysylltu â'r gofyniad am gronfeydd cyfun, ond ni fyddai hyn yn atal byrddau rhanbarthol rhag datblygu strategaethau comisiynu ar gyfer meysydd eraill.
- 3.18. Dylai'r strategaethau hyn gael eu llywio gan asesiad poblogaeth a chynllun ardal diweddaraf y rhanbarth, a bod yn gyson â nhw. Mae Llywodraeth Cymru yn

cynnig y dylai'r strategaeth gomisiynu gyntaf gael ei llunio erbyn mis Ebrill 2020 a'i hadolygu'n flynyddol.

- 3.19. Rydym yn croesawu barn ar briodolrwydd y gofyniad hwn ar gyfer strategaethau comisiynu rhanbarthol.

Cynrychiolaeth o'r sector tai ar fyrddau partneriaeth rhanbarthol ac aelodaeth ehangach

- 3.20. Yn ychwanegol at y gofynion ar gyfer aelodaeth o fyrddau partneriaeth rhanbarthol yn Rheoliadau 2015, dywed paragraff 30 o Ganllawiau Statudol Rhan 9 (Trefniadau Partneriaeth): “*Gall y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gyfethol personau eraill i fod yn aelodau o'r bwrdd fel sy'n briodol. Mae'r rheoliadau yn cyfeirio at isafswm aelodau'r bwrdd, ond bydd nifer y cynrychiolwyr ac amrywiaeth y bobl berthnasol yn cael eu penderfynu yn lleol. Gellir ystyried cynnwys aelodau eraill fel arweinwyr tai, y gwasanaeth tân, yr heddlu ac ati.*”
- 3.21. Mae'r Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn annog Llywodraeth Cymru i “fanteisio i'r eithaf ar fudd cynllunio a chydweithio agosach, trwy gymryd camau pellach trwy ganllawiau, deddfwriaeth a chymhellion ariannol, i sicrhau bod ystyriaethau tai yn cyd-fynd yn llwyr gyda chynllunio iechyd a gofal ar lefel leol”. Mae cynllun hirdymor Llywodraeth Cymru, *Cymru Iachach*, mewn ymateb i hyn, yn nodi y bydd gan y sector tai rôl fwy blaenllaw yn yr agenda partneriaeth.
- 3.22. Byrddau partneriaeth rhanbarthol sy'n gyfrifol am y Gronfa Gofal Integredig, gan gynnwys dyraniadau cyfalaf. Yn ddiweddar, cynyddwyd y buddsoddiad cyfalaf hwn yn sylweddol o ganlyniad i ganllawiau newydd sy'n pwysleisio y dylai byrddau partneriaeth rhanbarthol gefnogi atebion strategol bwysig a arweinir gan lety ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.
- 3.23. Ceir amrywiaeth o ran cynrychiolaeth o'r sector tai ar fyrddau partneriaeth rhanbarthol, yn ogystal ag is-strwythurau byrddau. Fodd bynnag, nid oes gofyniad ffurfiol am rywun sy'n cynrychioli'r sector tai ar hyn o bryd.
- 3.24. Byddai'r Rheoliadau Diwygio arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i aelodaeth pob bwrdd partneriaeth rhanbarthol gynnwys o leiaf un person sy'n cynrychioli'r sector tai o awdurdod lleol ac o leiaf ddau berson sy'n cynrychioli landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Byddai hyn yn sicrhau bod pob bwrdd rhanbarthol yn cynnwys cynrychiolydd o awdurdod lleol sydd â safbwynt llywodraeth leol ar fuddsoddi cyfalaf strategol yn y sector tai. Bydd hefyd yn sicrhau safbwynt cytbwys gan ddau berson sy'n cynrychioli cyfryngau cyflawni sydd â chyfrifoldeb landlord arweiniol llety a/neu gyfrifoldeb cyflenwi.
- 3.25. Byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu eich barn ar y cynnig hwn. Fel yn achos cynrychiolwyr gofalwyr, dinasyddion a'r trydydd sector, mater i'r bwrdd partneriaeth rhanbarthol fyddai rhoi proses ar waith ar gyfer nodi'r tri aelod newydd o'r rhanbarthau. Hefyd, gallai'r byrddau sefydlu grŵp (mae rhai grwpiau eisoes wedi'u sefydlu) sy'n ystyried blaenoriaethau ym meysydd tai, iechyd a gofal cymdeithasol ar y cyd, gan gynnwys cynrychiolwyr adrannau tai awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Wedyn, gallai'r grŵp

hwn enwebu un cynrychiolydd awdurdod lleol a dau gynrychiolydd landlordiaid cymdeithasol cofrestredig fel aelodau o'r bwrdd.

- 3.26. Yn fwy cyffredinol, bydd y Rheoliadau Diwygio yn addasu'r geiriad ychydig mewn perthynas â'r gofynion o ran aelodaeth er mwyn sicrhau bod termau fel "o leiaf un cynrychiolydd..." yn cael eu defnyddio'n gyson.

Adroddiadau blynyddol byrddau partneriaeth rhanbarthol

- 3.27. Rydym wedi cydweithio â'r Sefydliad Gofal Cyhoeddus a chydweithwyr rhanbarthol i gytuno ar ganllawiau anstatudol i ategu'r gofyniad i fyrddau partneriaeth rhanbarthol lunio adroddiadau blynyddol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cytuno â chydweithwyr rhanbarthol y dylai adroddiadau blynyddol gael eu llunio erbyn 30 Mehefin bob blwyddyn fel bod modd i wybodaeth diwedd blwyddyn gael ei chynnwys yn yr adroddiadau. Mae'r Rheoliadau Diwygio arfaethedig yn egluro'r gofyniad hwn.

Newidiadau i'r Canllawiau Statudol

- 4.1. O ganlyniad i'r Rheoliadau Diwygio arfaethedig, bydd angen gwneud nifer o ddiwygiadau i God Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol) a Chanllawiau Statudol Rhan 9 (Trefniadau Partneriaeth). Mân newidiadau neu newidiadau hunaneglurhaol fydd y rhan fwyaf o'r rhain. Gwneir y newidiadau mwy sylfaenol i Bennod 4 o Ganllawiau Rhan 9 sy'n ymdrin ag Aelodaeth Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Phennod 9 o Ganllawiau Rhan 9 sy'n ymdrin â chronfeydd cyfun.
- 4.2. Hefyd, caiff y bennod sy'n ymdrin â chronfeydd cyfun ei diweddarau i ystyried newid blaenorol i'r gofyniad i sefydlu cronfa gyfun pryd bynnag y caiff swyddogaethau eu harfer ar y cyd o ganlyniad i asesiad a gynhaliwyd o dan adran 14 neu unrhyw gynllun a baratowyd o dan adran 14A o'r Ddeddf. Cafodd y Trefniadau Partneriaeth eu diwygio yn 2017 i'w gwneud yn ofynnol, os bydd unrhyw rai o'r cyrff partneriaeth yn penderfynu gwneud pethau ar y cyd mewn ymateb i'r asesiad, bod yn rhaid iddynt ystyried p'un a yw'n briodol sefydlu a chynnal cronfa gyfun.
- 4.3. Isod ceir fersiynau drafft o baragraff 29 o bennod 4 o'r canllawiau presennol a phennod 9 newydd ar gronfeydd cyfun. Croesawn eich barn:

Diwygiadau i'r bennod ar aelodaeth

“29. Rhaid i aelodaeth Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gynnwys y canlynol:

- a) *o leiaf un aelod etholedig o awdurdod lleol a sefydlodd y bwrdd partneriaeth rhanbarthol;*
- b) *o leiaf un aelod o Fwrdd Iechyd Lleol a sefydlodd y bwrdd partneriaeth rhanbarthol;*
- c) *y person a benodwyd yn gyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol o dan adran 144 o'r Ddeddf mewn cysylltiad â phob awdurdod lleol a sefydlodd y bwrdd partneriaeth rhanbarthol, neu ei gynrychiolydd enwebedig;*
- d) *o leiaf un cynrychiolydd o'r Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlodd y bwrdd partneriaeth rhanbarthol;*
- e) *o leiaf ddau berson sy'n cynrychioli buddiannau sefydliadau'r trydydd sector yn yr ardal a gwmpesir gan y bwrdd partneriaeth rhanbarthol;*
- f) *o leiaf un person sy'n cynrychioli buddiannau darparwyr gofal yn yr ardal a gwmpesir gan y bwrdd partneriaeth rhanbarthol;*
- g) *o leiaf un person i gynrychioli pobl y mae arnynt anghenion am ofal a chymorth yn yr ardal a gwmpesir gan y bwrdd partneriaeth rhanbarthol;*
- h) *o leiaf un person i gynrychioli gofalwyr yn yr ardal a gwmpesir gan y bwrdd partneriaeth rhanbarthol;*
- i) *o leiaf un uwch-swyddog o awdurdod lleol sydd â chyfrifoldeb am fuddsoddiadau cyfalaf mewn tai yn yr ardal y mae'r bwrdd partneriaeth rhanbarthol yn gyfrifol amdano;*
- j) *o leiaf ddau berson sy'n cynrychioli landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ar gyfer yr ardal y mae'r bwrdd partneriaeth rhanbarthol yn gyfrifol amdani.*

Fersiwn newydd o'r bennod ar gronfeydd cyfun

9. Cronfeydd cyfun a defnyddio partneriaethau ffurfiol
58. Mae'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth yn gwneud y canlynol yn ofynnol:
- Rhaid i gyrff partneriaeth ym mhob rhanbarth sefydlu a chynnal un gronfa gyfun mewn perthynas â llety cartref gofal i bobl hŷn, y bydd pob corff partneriaeth yn cyfrannu ati;
 - Rhaid i gyrff partneriaeth sefydlu a chynnal cronfeydd cyfun mewn perthynas ag arfer swyddogaethau cymorth i deuluoedd;
 - Rhaid i gyrff partneriaeth lunio strategaeth gomisiynu ranbarthol mewn perthynas â chartrefi gofal i bobl hŷn;
 - Rhaid i'r gronfa gyfun ar gyfer cartrefi gofal i bobl hŷn fod yn ddigonol i ddiwallu'r anghenion a nodir yn y strategaeth gomisiynu ranbarthol;
 - Os bydd cyrff partneriaeth yn penderfynu gwneud pethau ar y cyd mewn ymateb i'r asesiad poblogaeth, rhaid iddynt ystyried p'un a yw'n briodol sefydlu a chynnal cronfa gyfun.
59. Bydd Llywodraeth Cymru yn disgwyl gweld dull integredig o ddatblygu gwasanaethau ymyrryd yn gynnwys a gwasanaethau ataliol yn ogystal â'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer integreiddio. Ceir gofyniad penodol ar gyfer cronfeydd cyfun mewn perthynas â'r Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd. Mae cyllid wedi cael ei ddyrannu i awdurdodau lleol fel rhan o setliad lleol fel bod modd sefydlu gwasanaethau integredig cymorth i deuluoedd ac er mwyn talu costau iechyd a gofal cymdeithasol y gwasanaeth. Bydd hyn yn sail i bartneriaeth ffurfiol gyda chronfa gyfun.
60. Dylai Byrddau Iechyd Lleol ac awdurdodau lleol hefyd ystyried unrhyw gyllid gan Lywodraeth Cymru fel y Gronfa Gofal Integredig, i'w hystyried fel math o gyllideb gyfun. Er na fydd hyn yn golygu bod angen cytundeb partneriaeth ffurfiol, dylai unrhyw wariant o dan y Gronfa Gofal Integredig, neu ffrydiau cyllido tebyg, fod yn destun cytundeb ysgrifenedig.
61. Hefyd, dylai Byrddau Iechyd Lleol wneud y canlynol mewn perthynas â chartrefi gofal:
- Cynnal asesiad o anghenion y boblogaeth a dadansoddiad o'r farchnad i gynnwys anghenion hunangyllidwyr;
 - Cytuno ar ddatganiad integredig priodol o sefyllfa'r farchnad. Bydd y datganiad hwn, ynghyd â'r strategaeth gomisiynu ranbarthol, yn nodi'r canlyniadau y mae'n ofynnol i gartrefi gofal eu cyflawni, gan gynnwys yr ystod o wasanaethau sydd eu hangen. Hefyd, dylai fod cytundeb ynghylch y dulliau comisiynu (er enghraifft, gall fod angen contract bloc, gwasanaethau gofal canolraddol cam-i-fyny a cham-i-lawr, gofal seibiant ac ati ar rai gwasanaethau);
 - Cytuno ar fanyleb a chontract cyffredin;
 - Datblygu dull integredig o gytuno ar ffioedd gyda darparwyr;
 - Datblygu dull integredig o sicrhau ansawdd;
 - Defnyddio adnoddau mewn ffordd dryloyw. Rhaid i gyllidebau gael eu cysoni â'r gwariant cyffredinol a nodwyd, ynghyd ag ymrwymadau ariannol pob asiantaeth i gomisiynu cartrefi gofal. Bydd angen i'r

trefniadau hyn fod yn destun cytundeb ysgrifenedig.

62. Y diben yw sicrhau bod Byrddau Iechyd Lleol ac awdurdodau lleol yn cydweithio â'i gilydd i sicrhau eu bod yn cael y dylanwad mwyaf posibl er mwyn llunio datblygiad gwasanaethau yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod digon o allu ac ystod briodol o wasanaethau o safon i ymateb i anghenion pobl yn eu rhanbarth. Dylai hyn gwmpasu lleoliadau awdurdod lleol a lleoliadau a ariennir gan y GIG (gofal nyrsio a ariennir a gofal iechyd parhaus y GIG). Dylai hefyd gwmpasu lleoliadau interim byrdymor er mwyn hwyluso trosglwyddiadau gofal o'r ysbyty a dewis o ran llety; gwelyau gofal canolraddol (cam-i-fyny / cam-i-lawr), lleoliadau hirdymor, gofal seibiant a gwasanaethau eraill y mae partneriaid yn dymuno eu comisiynu o gartrefi gofal. Wrth ddatblygu eu dull comisiynu integredig, bydd angen i'r partneriaid ystyried anghenion pobl sy'n ariannu eu gofal eu hunain.
63. Disgwylir y caiff yr un dull ei fabwysiadu mewn perthynas â gofal cartref hirdymor, gwasanaethau ailalluogi a meysydd blaenoriaeth eraill y bydd byrddau partneriaeth rhanbarthol yn penderfynu eu bod yn briodol.
64. Bydd partneriaid yn cadw cyfrifoldeb statudol am eu swyddogaethau a gyflawnir o dan bob trefniant cronfa gyfun. Mae hyn yn golygu y dylai'r cytundeb partneriaeth gynnwys y trefniadau llywodraethu, gan gynnwys atebolrwydd, gwneud penderfyniadau a'r ffordd y caiff y trefniadau cyllideb gyfun eu rheoli. Ymhlith yr egwyddorion cyffredinol y dylid eu hystyried mae:
- Cyfrifoldeb ac atebolrwydd a rennir
 - Tegwch
 - Tryloywder
 - Cysondeb
 - Gwerth am arian
65. Rhaid rhoi trefniadau monitro cynhwysfawr ar waith i roi sicrwydd perthnasol i bartneriaid bod eu nodau a'u hamcanion a rennir yn cael eu cyflawni.
66. Gall y gyllideb gyfun gael ei lletya a'i rheoli gan bartner statudol, neu gall gael ei lletya gan bartner statudol a'i rheoli ar ei ran gan sefydliad arall sydd dan gontract i wneud hynny. Bydd y sawl sy'n lletya'r gyllideb yn darparu'r systemau gweinyddu ariannol ar ran y partneriaid, ond ni fydd yn mynd i unrhyw rwymedigaethau ychwanegol, ar wahân i'r rhai sy'n gysylltiedig â rheoli'r gyllideb. Hefyd, bydd unrhyw archwilydd allanol yn disgwyl y bydd yr un lefel o reolaeth fewnol yn gymwys i'r cronfeydd cyfun ag sy'n gymwys i rannau eraill o'r sefydliad partner. Bydd yr archwilydd hefyd yn cadw hawl lawn i fynediad at y cofnodion a'r systemau ariannol a bydd yn disgwyl y bydd trywydd archwilio clir yn cael ei gynnal ar gyfer pob trafodyn ariannol.
67. Un o fanteision y gronfa gyfun yw y bydd y staff iechyd a'r staff awdurdod lleol a nodir yn y cytundeb yn gallu cael gafael ar yr adnoddau yn y gronfa, a gwneud penderfyniadau ynghylch sut i'w defnyddio, yn unol â'r broses y cytunwyd arni'n lleol rhwng yr aelodau hynny o staff a rheolwr y gronfa

gyfun. Bydd angen proses y cytunwyd arni ar gyfer awdurdodi'r staff a nodwyd i wneud hyn. Nid oes rhwystrau cyfreithiol sy'n atal staff iechyd rhag defnyddio cronfeydd cyfun wrth arfer swyddogaethau awdurdod lleol, nac i'r gwrthwyneb. Hefyd, nid oes cyfyngiad ar nifer y partneriaid.

68. Bydd y gofynion archwilio a chyfrifyddu yn amrywio yn dibynnu ar natur yr hyblygrwydd i'w ddefnyddio. Bydd hefyd yn bwysig ystyried sut i gynnwys cynrychiolwyr swyddogaethau archwilio allanol lleol wrth ychwanegu gwerth at y cytundeb arfaethedig, gan gynnwys gwneud sylwadau ar oblygiadau archwilio a chyfrifyddu cytundeb drafft lleol.
69. Bydd yn bwysig i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol nodi pa swyddogaethau neu wasanaethau fyddai'n arwain at integreiddio mwy effeithiol, naill ai drwy drefnu bod un partner yn talu partner arall yn uniongyrchol, drwy gyfrannu at gronfa gyfun neu drwy drefnu bod un partner neu'r llall yn darparu staff, nwyddau, gwasanaethau, swyddfeydd neu adnoddau eraill at ddiben trefniadau partneriaeth neu mewn cysylltiad â nhw.

Effeithiau posibl

- 5.1. Cafodd costau a buddiannau'r rheoliadau gwreiddiol, sef Rheoliadau Partneriaeth 2015, eu hasesu yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol o fewn y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau, sydd ar gael yma:
<http://www.assembly.wales/laid%20documents/sub-ld10399-em/sub-ld10399-em-w.pdf>

Y newidiadau i'r ffin rhwng byrddau iechyd Cwm Taf ac Abertawe Bro Morgannwg

- 5.2. Cafodd y costau sy'n gysylltiedig â goblygiadau cyffredinol y newid i ffin Bwrdd Iechyd Cwm Taf i ymgorffori Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr eu hystyried fel rhan o ganlyniad yr ymgynghoriad blaenorol ynghylch y mater hwn. Mae cyllid wedi'i drefnu ar gyfer helpu i dalu'r costau sy'n gysylltiedig â'r newid hwn ac nid ymdrinnir ag ef fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.

Cronfeydd Cyfun

- 5.3. Roedd partneriaeth rhanbarthol yn sefydlu cronfeydd cyfun mewn perthynas â'u swyddogaethau llety cartref gofal o fis Ebrill 2018 ymlaen, fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau 2015. Mae'r Rheoliadau Diwygio arfaethedig yn ceisio rhoi eglurhad ychwanegol mewn perthynas â'r angen i'r cronfeydd hynny fod yn rhanbarthol eu cwmipas. Ni fydd yr eglurhad hwn yn arwain at unrhyw gostau ychwanegol i bartneriaid.

Strategaethau Comisiynu Rhanbarthol

- 5.4. Mae'r canllawiau statudol eisoes yn cynnwys disgwyliad y bydd awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol yn cytuno ar ddatganiad integredig priodol o sefyllfa'r farchnad a strategaeth gomisiynu. Ni ddylai'r gofyniad rheoliadol newydd i lunio strategaeth gomisiynu ranbarthol a sicrhau bod cronfa gyfun ar waith i dalu'r costau llety cartref gofal ar gyfer pobl hŷn er mwyn diwallu anghenion y strategaeth honno arwain at gostau ychwanegol i bartneriaid. Bwriad dull comisiynu integredig yw gwella canlyniadau llesiant a sicrhau gwell gwerth am arian.

Cynrychiolaeth o'r sector tai ar fyrddau rhanbarthol

- 5.5. Mae'r Rheoliadau Diwygio arfaethedig yn ceisio ychwanegu tri pherson sy'n cynrychioli'r sector tai at bob bwrdd partneriaeth rhanbarthol. Disgwylir y bydd y costau sy'n gysylltiedig ag aelodaeth y cynrychiolwyr hyn o fwrdd rhanbarthol, gan gynnwys y broses gychwynnol o'u penodi, yn isel iawn ac yn cael eu talu ynghyd â chostau gweinyddol cyffredinol byrddau partneriaeth rhanbarthol.

Adroddiadau blynyddol byrddau partneriaeth rhanbarthol

- 5.6. Mae Rheoliadau 2015 eisoes yn cynnwys gofyniad i fyrddau partneriaeth rhanbarthol lunio adroddiad blynyddol. Mae'r Rheoliadau Diwygio arfaethedig yn ceisio rhoi eglurhad ynghylch yr amserlenni ar gyfer cyhoeddi'r adroddiadau hyn ac ni ddylent arwain at unrhyw gostau newydd i bartneriaid rhanbarthol.

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno bod y gofyniad bod yn rhaid i gronfeydd cyfun gael eu sefydlu'n rhanbarthol rhwng bwrdd iechyd a phob awdurdod lleol yn ardal y bwrdd iechyd hwnnw yn glir?

Cytuno Tueddu i Tueddu i Anghytuno
Sylwadau

Cwestiwn 2: A yw'r gofyniad y dylai cronfa gyfun fod yn gymwys i gartrefi gofal ar gyfer pobl hŷn yn glir?

Ydy Nac ydy

Sylwadau

Cwestiwn 3: A ydych yn cytuno â'r diffiniad o bobl hŷn mewn perthynas â chartrefi gofal i bobl hŷn, sef pobl 60 oed a throsodd?

Cytuno Tueddu i gytuno Tueddu i anghytuno Anghytuno

Sylwadau

Cwestiwn 4: A yw'r gofyniad am strategaethau comisiynu rhanbarthol, a'r ffordd y mae'n gysylltiedig â'r gronfa gyfun, yn glir?

Ydy Nac ydy

Cwestiwn 5: A ydych yn cytuno y dylai'r gofyniad am strategaethau comisiynu rhanbarthol ddechrau ym mis Ebrill 2020?

Cytuno Tueddu i gytuno Tueddu i anghytuno Anghytuno

Sylwadau

Cwestiwn 6: A ydych o'r farn bod nifer arfaethedig y cynrychiolwyr o'r sector tai yn briodol a bod y cynrychiolwyr hynny o'r sefydliadau cywir?

Cytuno Tueddu i gytuno Tueddu i anghytuno Anghytuno

Sylwadau

Cwestiwn 7: A ydych yn cytuno â'r cynnig i egluro yn y rheoliadau y bydd adroddiadau blynyddol byrddau partneriaeth rhanbarthol yn ofynnol erbyn 30 Mehefin bob blwyddyn?

Cytuno Tueddu i gytuno Tueddu i anghytuno Anghytuno

Cwestiwn 8: A oes gennych unrhyw sylwadau ar y diwygiadau arfaethedig i ganllawiau Rhan 9?

Sylwadau

Cwestiwn 9: Hoffem wybod eich barn ar yr effaith y byddai'r diwygiadau arfaethedig i Reoliadau Partneriaeth yn ei chael ar y Gymraeg, yn enwedig ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?

Sylwadau

Cwestiwn 10: Hefyd, esboniwch sut y gellid ffurfio neu newid y diwygiadau arfaethedig i Reoliadau Partneriaeth er mwyn arwain at effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, a pheidio â chael unrhyw effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg nac ar sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Sylwadau

Cwestiwn 11: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw yn benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi:

Nodwch yma:

Mae'n debygol y caiff ymatebion i ymgynghoriadau eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma: